# ARDRETHI ANNOMESTIG

## FFRAMWAITH POLISI AR GYFER

## RHYDDHAD ARDRETHI GORFODOL, DEWISOL A CHALEDI

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Awdur a gwasanaeth: Rheolwr Corfforaethol – Refeniw ac Asesiadau Ariannol**
**Dyddiad cymeradwyo gan y Cabinet: 01 Rhagfyr 2020**
**Asesiad Effaith Integredig: Oes**
**Dyddiad cyhoeddi: 01 Rhagfyr 2020**
**Dyddiad adolygu'r polisi: 01 Rhagfyr 2023**

**CYNNWYS** **TUDALEN**

1. CYFLWYNIAD ……………………………………………........... 2

2. RHYDDHAD ARDRETHI GORFODOL…………………………… 2

3. RHYDDHAD ARDRETHI DEWISOL……………………….......... 3

4. DEDDF LLEOLIAETH 2011……………………………………... 5

5. RHYDDHAD CALEDI……………………………… .................. 6

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL DYFARNIADAU GORFODOL A DEWISOL ……………………….......................................... 8

7. Y BROSES WEINYDDU A CHYFATHREBU............................. 8

8. HAWLIAU I APELIO ……………………………………............. 9

9. CYMORTH GWLADOL…………………………………………... 9

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a deddfwriaeth ddiweddarach, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi rhyddhad ardrethi gorfodol i safleoedd sy'n cael eu meddiannu gan elusennau a sefydliadau o'r fath neu'u meddiannu'n llwyr neu'n rhannol at ddibenion elusennol.

1.2 Er bod rhaid i'r Cyngor roi rhyddhad i safleoedd sy'n perthyn i'r categori gorfodol, mae gan y Cyngor hefyd bwerau o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a Deddf Lleoliaeth 2011 i roi rhyddhad dewisol i dalwyr ardrethi busnes os ydynt yn bodloni meini prawf penodol.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r fframwaith deddfwriaethol a'r meini prawf y mae'n ofynnol eu bodloni yng Ngheredigion i gael:

- i. Rhyddhad Ardrethi Gorfodol
- ii. Rhyddhad Ardrethi Dewisol
- iii. Rhyddhad Caledi

1.4 Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun, ond byddwn yn gwneud hynny gan roi sylw i effaith rhoi rhyddhad ardrethi dewisol a chaledi:

- i. ar sefyllfa ariannol ehangach y Cyngor a thalwyr Treth y Cyngor;
- ii. ar y sefydliadau a'r busnesau sy'n cael rhyddhad ar hyn o bryd neu a allai wneud cais i'w gael yn y dyfodol;
- iii. ar drigolion Ceredigion os rhoddir rhyddhad, a'r buddion economaidd i'r ardal.

1.5 O gyflwyno'r polisi, bydd yn darparu fframwaith y gall yr Aelodau a'r swyddogion ei ddefnyddio i weinyddu ac i reoli rhyddhad ardrethi, gan ymdrin â thalwyr ardrethi busnes mewn ffordd gyson a theg.

## 2. RHYDDHAD ARDRETHI GORFODOL

2.1 I fod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, rhaid nad yw'r sefydliad yn gweithredu i wneud elw a rhaid bod yr eiddo y mae'n ei feddiannu'n cael ei ddefnyddio'n llwyr neu'n bennaf at ddibenion elusennol neu at ddibenion Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol.

2.2 Mae'r mathau o sefydliadau a restrir isod fel rheol yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol:

- i. Elusennau sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Elusennau 1993 fel y'i diwygiwyd – mae hyn yn brawf pendant o'u statws elusennol
- ii. Sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru o dan Ddeddf 1993 neu sy'n elusennau esempt e.e.
    - a) Comisiynwyr eglwysi;
    - b) Sefydliadau sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974;

c) Cymdeithasau'r Sgowtiaid a'r Geidiaid;
d) Ysgolion gwirfoddol o fewn ystyr Deddfau Addysg 1944 a 1980

iii. Siopau elusen ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i werthu nwyddau a roddwyd i'r elusen a bod yr elw o werthu'r nwyddau'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr elusen yn unig
iv. Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol sydd wedi'u cofrestru at ddibenion atodlen 18 i Ddeddf Cyllid 2002

2.3 O dan adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n rhaid i'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, roi Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% i sefydliadau sy'n bodloni'r meini prawf uchod. Fe'i hariennir yn llwyr gan Lywodraeth Cymru.

2.4 Mae gan y Cyngor ddisgresiwn i ddyfarnu Rhyddhad Ardrethi Dewisol o hyd at 20% i sefydliadau penodol sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80%. Mae'r amodau cymhwyso i'w gweld yn adran 3 – Rhyddhad Ardrethi Dewisol.

2.5 Rhaid gwneud cais ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen gais gymeradwy'r Cyngor. Mae'r ffurflen Rhyddhad Ardrethi Gorfodol ar gael ar wefan y Cyngor neu gellir ei hanfon at dalwyr ardrethi sy'n gofyn i gael rhyddhad.

2.6 Bydd yr hawl i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol yn dod i rym ar yr hwyraf o'r dyddiadau hyn:

i. Dyddiad meddiannu'r safle; neu
ii. Dyddiad cofrestru fel elusen.

Yn achos Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol, bydd yn dod i rym ar yr hwyraf o'r dyddiadau hyn:

i. Dyddiad meddiannu'r safle; neu
ii. Dyddiad cofrestru â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM).

2.7 Bydd Ceredigion yn cynnal gwiriad blynyddol i gadarnhau'r hawl i gael y rhyddhad, a bydd yn cynnal adolygiad llawn bob tair blynedd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i sefydliadau/busnesau roi gwybod i'r awdurdod os bydd eu hamgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd a allai effeithio ar eu hawl i gael rhyddhad.

## 3. RHYDDHAD ARDRETHI DEWISOL

3.1 Caiff sefydliadau y dyfarnwyd Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% iddynt o dan adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (fel y nodir yn adran 2) wneud cais i gael Rhyddhad Ardrethi Dewisol ar ffurf taliad atodol o 20%. Ni fyddwn yn rhoi taliad Rhyddhad Ardrethi Dewisol ychwanegol ar ffurf taliad atodol i'r sefydliadau a ganlyn:

i. Prifysgolion a sefydliadau addysg eraill;
ii. Siopau elusen.

3.2 Byddwn yn rhoi rhyddhad o 100% i sefydliadau chwaraeon nad ydynt yn gwneud elw sy'n gwneud cais i gael Rhyddhad Ardrethi Dewisol.

3.3 Mae Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% ac, os byddant yn gwneud cais i gael Rhyddhad Ardrethi Dewisol, byddwn yn rhoi rhyddhad o 20% iddynt.

3.4 Bydd siopau elusen yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% os ydynt yn cael eu defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i werthu nwyddau **a roddwyd** i'r elusen a bod yr elw a wneir o werthu'r nwyddau (ar ôl didynnu unrhyw gostau) yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr elusen. **Ni** fyddwn yn rhoi Rhyddhad Ardrethi Dewisol i siopau elusen.

3.5 Gall neuaddau pentref wneud cais i gael Rhyddhad Ardrethi Dewisol ac fe'i rhoddir yn unol â'r meini prawf a ganlyn:

i. Os yw'r neuadd wedi'i chofrestru fel elusen, rhoddir Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% a Rhyddhad Ardrethi Dewisol ychwanegol o 20% iddi.
ii. Os nad yw wedi'i chofrestru fel elusen, rhoddir Rhyddhad Ardrethi Dewisol o 100% iddi.

3.6 Byddwn yn rhoi Rhyddhad Ardrethi Dewisol i sefydliadau plant neu bobl ifanc sy'n darparu cyfleoedd addysg neu hamdden i genhedlaeth iau Ceredigion yn unol â'r meini prawf a ganlyn:

i. Os yw'r sefydliad wedi'i gofrestru fel elusen, rhoddir Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% a Rhyddhad Ardrethi Dewisol ychwanegol o 20% iddo.
ii. Os nad yw wedi'i gofrestru fel elusen, rhoddir Rhyddhad Ardrethi Dewisol o 100% iddo.

3.7 Byddwn yn rhoi Rhyddhad Ardrethi Dewisol i sefydliadau sy'n ymwneud yn bennaf â lles cymdeithasol unigolion yng Ngheredigion yn unol â'r meini prawf a ganlyn:

i. Os yw'r sefydliad wedi'i gofrestru fel elusen, rhoddir Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% a Rhyddhad Ardrethi Dewisol ychwanegol o 20% iddo.
ii. Os nad yw wedi'i gofrestru fel elusen, rhoddir Rhyddhad Ardrethi Dewisol o 100% iddo.

3.8 Bydd ceisiadau gan sefydliadau ac eithrio'r rheini a nodir uchod yn cael eu hystyried yn ôl teilyngdod gan banel a fydd yn cynnwys Aelod Cabinet, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael, y Rheolwr Corfforaethol – Refeniw ac Asesiadau Ariannol a/neu'r Rheolwr Trethiant Lleol.

3.9 Rhaid gwneud cais ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen gais gymeradwy'r Cyngor. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y Cyngor neu gellir ei hanfon at dalwyr ardrethi sy'n gofyn i gael rhyddhad. Sylwch mai dim ond un ffurflen gais y bydd angen i sefydliadau sy'n gwneud cais i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol o 80% a Rhyddhad Ardrethi Dewisol o 20% ei llenwi, ond bydd angen iddynt nodi eu bod yn gwneud cais i gael y ddau.

3.10 Bydd y Rhyddhad Ardrethi Dewisol yn dod i rym ar gyfer sefydliadau cymwys ar y dyddiadau a ganlyn, p'run a ydynt yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol hefyd ai peidio:

i. Os gwneir cais ar 30 Medi neu cyn hynny yn ystod y flwyddyn ardrethol gyfredol, pa un bynnag sydd hwyraf o blith:
   - 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol; neu
   - Dyddiad meddiannu'r safle.

ii. Os gwneir cais ar 1 Hydref neu ar ôl hynny yn ystod y flwyddyn ardrethol gyfredol, pa un bynnag sydd hwyraf o blith:
   - 1 Ebrill yn y flwyddyn gyfredol; neu
   - Dyddiad meddiannu'r safle.

3.11 Bydd Ceredigion yn cynnal gwiriad blynyddol i gadarnhau'r hawl i gael y rhyddhad, a bydd yn cynnal adolygiad llawn bob tair blynedd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i sefydliadau/busnesau roi gwybod i'r awdurdod os bydd eu hamgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd a allai effeithio ar eu hawl i gael rhyddhad.

3.12 O dan reoliad 2 o Reoliadau Ardrethi Annomestig (Rhyddhad Dewisol) 1989, rhaid i Geredigion roi rhybudd os bydd yn penderfynu amrywio neu derfynu rhyddhad a roddwyd o dan y fframwaith polisi hwn. Rhaid rhoi blwyddyn o rybudd a rhaid iddo gael effaith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mewn geiriau eraill, os na roddir rhybudd o newid a allai beri i fil gynyddu erbyn 31 Mawrth, gallai'r rhyddhad barhau ar yr un lefel (o leiaf) am ddwy flynedd arall.

## 4. DEDDF LLEOLIAETH 2011

4.1 Mae adran 69 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn diwygio adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i ganiatáu i awdurdod lleol roi Rhyddhad Ardrethi Dewisol o dan unrhyw amgylchiadau, fel y gwêl yn dda, gan roi sylw i'r effaith ar dalwyr Treth y Cyngor yn ei ardal.

4.2 Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun a bydd y materion a ganlyn yn cael eu hystyried:

i. Y budd i'r gymuned ac i dalwyr Treth y Cyngor o roi Rhyddhad Ardrethi Dewisol e.e. cyflogaeth yn yr ardal ac amwynderau yn y gymuned.
ii. Busnesau eraill yn yr ardal sy'n darparu'r un gwasanaethau neu gyfleusterau, neu rai tebyg.

iii. A fydd dyfarnu'r rhyddhad yn cael effaith wrthgystadleuol ar fusnesau eraill?
iv. A yw'r busnes yn hanfodol i'r gymuned e.e. yr effaith ar y gymuned?
v. Ni fyddwn yn dyfarnu Rhyddhad Ardrethi Dewisol os nad oes llawer o ddisgwyl i'r busnes oroesi'n economaidd.

4.3 Rhaid gwneud cais ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen gymeradwy'r Cyngor. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y Cyngor neu gellir ei hanfon at dalwyr ardrethi sy'n gofyn i gael rhyddhad. Dylali busnesau ddarparu digon o wybodaeth i sicrhau bod modd ystyried y materion a amlinellir yn 4.2 uchod. Rhaid i fusnesau hefyd ddarparu'r wybodaeth a'r dogfennau a ganlyn:

i. Copïau o'u mantolenni a'u cyfrifon elw a cholled archwiliedig neu ardystiedig ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Os ydynt wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd, dylent anfon yr holl gyfrifon sydd ar gael ganddynt. Gallent fod am anfon unrhyw wybodaeth berthnasol arall hefyd.
ii. Datganiad cyfredol a baratowyd gan eu Cyfrifydd neu Gynghorydd Busnes ynghylch sefyllfa ariannol bresennol y busnes, gan gynnwys amcangyfrifon o'u cyfrifon masnachu ac elw a cholled a'u mantolen (os na allant ddarparu'r wybodaeth hon, dylent ddarparu copïau o gyfrifon banc y busnes o ddyddiad y cyfrifon archwiliedig diwethaf hyd at y dyddiad cyfredol, ynghyd ag amcangyfrif o gostau'r busnes yn ystod yr un cyfnod).
iii. Rhagolwg llif arian misol ar gyfer y 12 mis nesaf.

4.4 Rhaid i sefydliadau/busnesau ddangos yn glir pam fod rhoi'r Rhyddhad Ardrethi Dewisol o fudd i dalwyr Treth y Cyngor.

4.5 Mae buddiannau talwyr Treth y Cyngor yn rhan bwysig o bob penderfyniad oherwydd bydd 100% o unrhyw ddyfarniad yn cael ei dalu yn y pen draw drwy daliadau Treth y Cyngor, sef y rheswm dros gyfyngu ar swm a hyd unrhyw ddyfarniad.

4.6 Bydd pob cais yn cael ei ystyried gan banel a fydd yn cynnwys Aelod Cabinet, y Rheolwr Corfforaethol – Refeniw ac Asesiadau Ariannol, a'r Rheolwr Trethiant Lleol.

## 5. RHYDDHAD CALEDI

5.1 O dan adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae gan y Cyngor ddisgresiwn i roi rhyddhad o hyd at 100% pan fydd busnes yn wynebu caledi.

5.2 Byddwn yn ystyried rhoi Rhyddhad Caledi i fusnes sy'n dioddef caledi annisgwyl tu hwnt i'r risgiau arferol sy'n gysylltiedig â'r busnes. Dim ond mewn sefyllfaoedd eithriadol y byddwn yn rhoi unrhyw ryddhad ar sail caledi.

5.3 I fod yn gymwys i gael Rhyddhad Caledi, rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon:

i. Y byddai'r talwr ardrethi'n dioddef caledi pe na bai'n gwneud hynny;

ii. Ei bod yn rhesymol i'r Cyngor wneud hynny gan roi sylw i fuddiannau talwyr Treth y Cyngor.

5.4 Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun a bydd yn rhoi sylw i'r materion a ganlyn:

i. Pwysigrwydd a gwerth y busnes i'r gymuned e.e. a fyddai rhagolygon gwaith yr ardal yn gwaethygu pe bai'r cwmni'n dod i ben neu a fyddai llai o amwynderau yn yr ardal pe bai'r busnes yn dod i ben e.e. colli unig siop y pentref.
ii. Pa dystiolaeth o galedi sydd ar gael? Nid oes rhaid i hyn fod yn galedi ariannol yn unig: byddwn yn ystyried pob ffactor sy'n effeithio ar allu busnes i dalu ei drethi.
iii. Beth sy'n achosi'r caledi ac am ba hyd y disgwylir iddo bara?
iv. Pa gamau a gymerwyd eisoes i liniaru/unioni'r sefyllfa?
v. A yw'r busnes yn debygol o wynebu caledi dros dro e.e. o ddyfarnu rhyddhad untro, a fyddai'n ddigonol i gael gwared ar y caledi?
vi. Beth yw hyd a lled y caledi: a yw'n debygol y byddai'r busnes yn anghynaliadwy hyd yn oed pe baem yn dyfarnu rhyddhad iddo?

5.5 Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i gael Rhyddhad Caledi gan ddefnyddio ffurflen gymeradwy'r Cyngor. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y Cyngor neu gellir ei hanfon at dalwyr ardrethi sy'n gofyn i gael rhyddhad. Dylai busnesau ddarparu digon o wybodaeth i sicrhau bod modd ystyried y materion a amlinellir yn 5.4 uchod. Rhaid i fusnesau hefyd ddarparu'r wybodaeth a'r dogfennau a ganlyn:

i. Copïau o'u mantolenni a'u cyfrifon elw a cholled archwiliedig neu ardystiedig ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Os ydynt wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd, dylent anfon yr holl gyfrifon sydd ar gael ganddynt. Gallent fod am anfon unrhyw wybodaeth berthnasol arall hefyd.
ii. Datganiad cyfredol a baratowyd gan eu Cyfrifydd neu Gynghorydd Busnes ynghylch sefyllfa ariannol bresennol y busnes, gan gynnwys amcangyfrifon o'u cyfrifon masnachu ac elw a cholled a'u mantolen (os na allant ddarparu'r wybodaeth hon, dylent ddarparu copïau o gyfrifon banc y busnes o ddyddiad y cyfrifon archwiliedig diwethaf hyd at y dyddiad cyfredol, ynghyd ag amcangyfrif o gostau'r busnes yn ystod yr un cyfnod).
iii. Rhagolwg llif arian misol ar gyfer y 12 mis nesaf.

5.6 Byddwn yn pennu hyd a swm y dyfarniad fesul achos. Fodd bynnag, byddwn yn dyfarnu rhyddhad ar gyfer y cyfnod lle ceir tystiolaeth glir o galedi yn unig, a hynny hyd at uchafswm o un flwyddyn filio/ariannol. Bydd angen i ymgeiswyr wneud cais o'r newydd bob blwyddyn.

5.7 Bydd pob cais yn cael ei ystyried gan banel a fydd yn cynnwys Aelod Cabinet, y Rheolwr Corfforaethol – Refeniw ac Asesiadau Ariannol, a'r Rheolwr Trethiant Lleol.

5.8 Mae Llywodraeth Cymru'n talu 75% o gost y Rhyddhad Caledi, ac mae talwyr Treth y Cyngor yn talu'r 25% sy'n weddill.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL DYFARNIADAU GORFODOL A DEWISOL

6.1 Mae'r Rhyddhad Ardrethi Gorfodol yn rhoi rhyddhad rhag talu 80% o'r ardrethi sy'n ddyledus. Telir cost y dyfarniad yn llwyr gan Lywodraeth Cymru.

6.2 Mae trefniadau ariannu'r Rhyddhad Ardrethi Dewisol yn wahanol ac mae'r tabl isod yn dangos y costau y bydd Llywodraeth Cymru'n talu amdanynt a'r costau y bydd talwyr lleol Treth y Cyngor yn talu amdanynt.

6.3 Os caniateir unrhyw ryddhad o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, bydd Ceredigion yn ysgwyddo'r gost gyfan a bydd talwyr lleol Treth y Cyngor yn talu'r gost yn llwyr.

| **Y math o ryddhad** | **Uchafswm y rhyddhad a ddyfernir** | **Cyfran y gost a delir gan:** | |
|---|---|---|---|
| | | **Llywodraeth Cymru** | **Talwyr Treth y Cyngor** |
| Gorfodol | 80% | 100% | 0% |
| Taliad atodol dewisol | Hyd at 20% | 25% | 75% |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol yn unig | Hyd at 100% | 90% | 10% |
| Deddf Lleoliaeth 2011 | Hyd at 100% | 0% | 100% |
| Rhyddhad Caledi | Hyd at 100% | 75% | 25% |

## 7. Y BROSES WEINYDDU A CHYFATHREBU

7.1 Ac eithrio'r Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, nid mater o hawl yw cael rhyddhad. Drwy ei bolisi, mae gan y Cyngor hawl i bennu lefelau gwahanol o Ryddhad Ardrethi Dewisol a Rhyddhad Caledi yn ôl natur ac amgylchiadau sefydliadau a busnesau unigol. Dylid cadw mewn cof hefyd y gall ffactorau eraill gyfyngu ar allu'r Cyngor i roi rhyddhad, yn enwedig y gyllideb sydd ar gael ganddo.

7.2 Mae'r adran a ganlyn yn amlinellu'r weithdrefn a ddilynir gan swyddogion i roi rhyddhad, ei ddiwygio neu'i ganslo.

7.3 Fel yr eglurir yn yr adrannau blaenorol, rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor gan ddefnyddio ffurflenni cais cymeradwy'r Cyngor i gael Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, Dewisol a Chaledi. Mae'r ffurflenni hyn ar gael ar wefan y Cyngor neu gellir eu hanfon at dalwyr ardrethi sy'n gofyn i gael rhyddhad.

7.4 Mae'n ofynnol i sefydliadau/busnesau lenwi ffurflen gais a'i hanfon at y Cyngor ynghyd ag unrhyw dystiolaeth, dogfennau, cyfrifon, datganiadau ariannol ac ati sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor benderfynu. Os na fydd sefydliad/busnes yn darparu digon o wybodaeth, er inni ei atgoffa o'r angen i wneud hynny, ni fyddwn yn rhoi rhyddhad iddo.

7.5 Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r talwr ardrethi am y penderfyniad a wnaed.

7.6 Os bydd cais yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig am y pethau a ganlyn:

i. swm y rhyddhad a roddwyd a'r dyddiad y bydd y rhyddhad yn cychwyn;
ii. y dyddiad y bydd unrhyw ryddhad a roddwyd yn dod i ben;
iii. swm newydd y dreth sy'n daladwy;
iv. manylion unrhyw ddyddiadau adolygu arfaethedig a'r rhybudd a roddir cyn newid lefel y rhyddhad a roddwyd;
v. y gofyniad am i'r ymgeisydd roi gwybod i'r awdurdod os bydd ei amgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd a allai effeithio ar ei hawl i gael rhyddhad.

7.7 Os na fyddwn yn rhoi rhyddhad o gwbl neu os byddwn yn cyfyngu ar y swm a ddyfernir, byddwn yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i roi'r wybodaeth a ganlyn:

i. esboniad o'r penderfyniad yng nghyd-destun ein dyletswydd statudol;
ii. esboniad o'r hawliau i apelio (gweler isod).

## 8. HAWLIAU I APELIO

8.1 I apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod i wrthod dyfarnu Rhyddhad Ardrethi Dewisol neu Ryddhad Caledi, neu i gyfyngu ar swm y dyfarniad, rhaid cyflwyno apêl ysgrifenedig cyn pen 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddir gwybod am y penderfyniad hwnnw. Rhaid i'r apêl nodi'n glir y sail dros apelio, a rhaid darparu'r holl ddogfennau ategol perthnasol. Os cafodd y penderfyniad gwreiddiol ei wneud heb iddo wybod y ffeithiau i gyd, bydd y panel gwreiddiol yn adolygu'r penderfyniad. Fel arall, bydd y panel apêl sy'n cynnwys aelodau o'r Cabinet yn ystyried yr apêl.

## 9. CYMORTH GWLADOL

9.1 Gall rhyddhad rhag talu ardrethi annomestig fod yn gyfystyr â chymorth gwladol. Mae'n gyfreithlon os y'i darperir yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EU) 1407/2013 ynghylch cymorth *de minimis.* Mae'r rheoliad *de minimis* yn caniatáu i gwmni gael hyd at €200,000 o gymorth *de minimis* dros gyfnod treigl o dair blynedd. Os ydych yn cael unrhyw gymorth *de minimis,* neu os ydych wedi cael unrhyw gymorth o'r fath yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol neu'r ddwy flynedd ariannol flaenorol (o unrhyw ffynhonnell), dylech roi gwybod i'r awdurdod bilio ar unwaith gan roi manylion y cymorth a gafwyd.